**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella,**
Iechyd Cyhoeddus Cymru, sydd eto i'w cadarnhau
**10 Tachwedd 2021, 10:00**
**Lleoliad: Ystafell 3/7, Rhif 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd a thrwy Microsoft Teams**

UNCONFIRMED

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Kate Eden | (KE) | Cadeirydd y Pwyllgor, Is-gadeirydd y Bwrdd, a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) *(gadawodd y cyfarfod am 12pm)* |
| Judi Rhys | (JR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector) |
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd y Bwrdd |
| **Yn bresennol:** | | |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd *(gadawodd y cyfarfod am 11am)* |
| John Boulton | (JB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Paul Dalton | (PD) | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| Sarah Evans | (SE) | Cynrychiolydd Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) |
| Rebecca Fogarty | (RF) | Rheolwr Ymgysylltu a Chydweithio *(arsylwi)* |
| Sharon Hillier | (SH) | Cyfarwyddwr, Adran Sgrinio *(Ar gyfer eitem 64/2021)* |
| Wayne Jepson | (WP) | Arweinydd Rhaglen / Cynghorydd Gwelliant |
| Nathan Jones | (NJ) | Pennaeth Strategaeth a Chynllunio *(Ar gyfer eitem 63/2021)* |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. |

| | | |
|---|---|---|
| Eleri Lloyd-Burns | (ELB) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Donna Newell | (DN) | Arweinydd Diogelu a Enwyd |
| Chris Orr | (CO) | Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch/ Rheolwr Cyffredinol Gweithrediadau a Chyllid (ar gyfer eitem 68/2021) |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Christopher Thomas | (CT) | Rheolwr Llywodraethu a Chyffredinol |
| Verity Winn | (VW) | Cynrychiolydd Archwilio Cymru |
| | | |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Swyddog Gweithredol |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil |
| Andrew Jones | (AJ) | Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Tîm Gweithredol |
| Stephanie Wilkins | (SW) | Cynrychiolydd ochr staff |
| **Ysgrifennydd** | | |
| Reanne Reffell | | Swyddog Cymorth y Bwrdd |

*Dechreuodd y cyfarfod am 10:00*

**QSIC 61/2021 Croeso, Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol, a nododd, oherwydd yr ymateb parhaus i bandemig COVID-19 ac mewn perthynas â'r canllawiau cenedlaethol ar waith, bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig.

**Nododd** y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol.

**QSIC 62/2021 Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau'n ychwanegol i'r rhai a ddatganwyd eisoes ar y gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

**QSIC 63/2021 Dangosyddion Ansawdd a Pherfformiad Dangosfwrdd Sicrwydd**

Agorodd KE y sesiwn drwy egluro'r cyflwyniad a thrafodaeth arfaethedig ar elfennau ansawdd (Gweithio i Wella) Dangosfwrdd y Bwrdd Perfformiad a Sicrwydd, a sut y gallai'r Pwyllgor fod eisiau defnyddio'r Dangosfwrdd fel

UNCONFIRMED

offeryn ymarferol i gyflawni rhywfaint o ddyletswydd y Pwyllgor o ran adolygu ansawdd a diogelwch ar draws y sefydliad.

Rhoddodd RBW gyflwyniad i'r Pwyllgor yn cyflwyno trosolwg o'r Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu (Cymru) i osod cyd-destun y dyfodol a chyfeiriodd at y Strategaeth Ansawdd a Gwella a'r Model Llywodraethu Integredig wrth gefnogi parodrwydd ar gyfer y ddeddfwriaeth. Dilynwyd hyn gan ganolbwyntio ar y Dangosyddion Ansawdd Gweithio i Wella presennol. Aeth RBW ymlaen i dynnu sylw at newidiadau sy'n cael eu datblygu i'r dull gweithredu gyda gwybodaeth Gweithio i Wella (PTR) er mwyn cynnal dadansoddiad gwell o'r data, dadansoddi tueddiadau a mannau poeth, a sut y gellid defnyddio'r wybodaeth hon i lywio rhai o'r gwelliannau ansawdd sydd eu hangen ar draws cyfarwyddiaethau.

Wrth ddangos y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad, myfyriodd NJ ar y symudiad tuag at fewnwelediadau gweithredadwy a'r ffocws ar safonau ansawdd i sicrhau data safon aur. Aeth ymlaen i amlinellu sut y gellid defnyddio'r dangosfwrdd fel offeryn i helpu i gefnogi'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn eu rôl sicrwydd a chraffu, ac i gefnogi taith wella'r sefydliad drwy gynorthwyo gyda mwy o fewnwelediad a dealltwriaeth.

Yn dilyn yr arddangosiad rhyngweithiol, ystyriodd aelodau'r Pwyllgor gwestiynau ynghylch y defnydd o'r dangosfwrdd yn y dyfodol, gan gyd-fynd â'r naratif i'r adran ansawdd, a fformat y ffurf PTR chwarterol.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn fodlon ar ddatblygiad y dangosfwrdd, a thrafodwyd:

- pwysigrwydd rhannu'r dangosfwrdd gyda thimau cyfarwyddiaeth;
- o ran mewnwelediadau gweithredadwy, yr oedd angen datblygu pellach er mwyn sicrhau ymagwedd integredig ar draws meysydd, h.y. y cysylltiad rhwng y dangosfwrdd a'r risgiau o fewn gwasanaethau. Hefyd, wrth inni symud tuag at ganlyniadau, byddai'r Pwyllgor am adolygu cerrig milltir, a beth oedd y materion, y tueddiadau a'r camau gweithredu a nodwyd.
- pwysigrwydd nodi a chynnwys meysydd cadarnhaol mewn ffordd gytbwys;
- tystiolaeth o welliant dros amser;
- beth oedd y mecanweithiau i ledaenu dysgu a nodwyd drwy ddadansoddi'r mewnwelediadau, a sut y gallem ymgysylltu mwy â defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid, gan nodi'r bwriad i brynu offeryn digidol i helpu i gasglu adborth rhanddeiliaid;
- yr angen am gymorth addysg a hyfforddiant ar draws y sefydliad i ddeall a defnyddio'r data yn effeithiol a chreu siartiau. Dywedodd RBW fod hyn yn rhan o'r cynlluniau i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Ansawdd a Gwella. Cytunodd JB hefyd i hwyluso sesiwn hyfforddi ar gyfer y Bwrdd mewn diwrnod Datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol; **Camau gweithredu: JB**

UNCONFIRMED

- bod y Dangosfwrdd yn offeryn defnyddiol i fapio'r meysydd penodol ac ar wahân o ffocws y Pwyllgor/Bwrdd ac y gellid ei ddefnyddio i lywio rhaglen waith y Pwyllgor, i helpu i ddathlu llwyddiant ac ymchwilio i feysydd sydd angen mwy o ffocws;
- dulliau ar gyflwyno naratif y dangosfwrdd. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn myfyrio y byddai angen i berchnogion allweddol fod yn bresennol yn y Pwyllgor i ychwanegu naratif ac ateb cwestiynau ynghylch y data. Aeth aelodau'r Pwyllgor ymlaen i awgrymu defnyddio clip cyfryngau rhyngweithiol a fyddai'n cael ei gyflwyno i aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod, a oedd yn tynnu sylw at feysydd ffocws ar gyfer cyfarwyddiaethau.

**Cytunodd** y Pwyllgor i dreialu'r defnydd o'r dangosfwrdd ar gyfer yr adroddiad PTR nesaf yn y Pwyllgor, gan benderfynu ystyried yn y cyfarfod ar sut yr aeth, sut yr oedd yn ychwanegu at ddealltwriaeth a sicrwydd y Pwyllgor ar gyfer PTR, a sut y byddai'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd.
**Cam Gweithredu: RBW/NJ**

Nododd y Pwyllgor yr angen i fyfyrio ar y naratif a ddaeth gyda'r Dangosfwrdd Sicrhau Perfformiad i'r Pwyllgor, er mwyn cael darlun ôl-weithredol cyflawn o'r misoedd blaenorol.
**Cam Gweithredu: RBW**

Ystyriodd y Pwyllgor y ffordd yr ystyriodd y Pwyllgor Brofiad Defnyddwyr Gwasanaeth. Roedd yn falch o nodi i ateb digidol gael ei gaffael a fyddai'n cael ei weithredu i gefnogi adborth defnyddwyr gwasanaeth a fyddai'n galluogi ffocws sefydliadol ar fetrigau ymgysylltu a phrofiad yn well. Gofynnodd y Pwyllgor i RBW flaenoriaethu'r maes gwaith hwn er mwyn i'r Pwyllgor weld sut y byddai hyn yn ychwanegu at ei ddealltwriaeth o wasanaethau'r sefydliadau a sut y byddem yn defnyddio'r offer i wella gwaith y Pwyllgor i gyflawni ei ddyletswydd.
**Cam Gweithredu: RBW**

*Gadawodd NJ y cyfarfod*

**Eitemau ar gyfer Sicrwydd**

| **QSIC 64/2021** | **Diweddariad ar y Rhaglen Sgrinio** |
|---|---|

*Ymunodd SH â'r cyfarfod.*

Cafodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf gan SH (cyf 4.2.QSIC.10112021) ar adferiad y rhaglenni sgrinio.

Rhoddodd SH drosolwg o'r sefyllfa bresennol a'r cynllun adfer ar gyfer pob un o'r rhaglenni sgrinio, a fyddai'n cael ei gefnogi gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, a chynlluniau gweithredu i liniaru'r ôl-groniad ar draws y gwasanaethau.

Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol:

UNCONFIRMED

- adroddiadau diweddar ar lwyddiant y brechlyn HPV a'r effaith ar gyfraddau sgrinio serfigol mewn carfannau penodol, a datblygu cyfnodau sgrinio estynedig a hunan-samplu ceg y groth yn y dyfodol;
- prydlondeb colonosgopïau o fewn Sgrinio Coluddion Cymru, gan nodi'r ymgysylltiad â Bwrdd y Rhaglen Endosgopi Cenedlaethol fel offeryn i weithio gyda Byrddau Iechyd i wneud y gorau o'r system;
- y cynnydd gwell o fewn Sgrinio'r Fron ar gyfer adferiad, a'r posibilrwydd o archwilio deallusrwydd artiffisial fel offeryn i gefnogi sgrinio
- roedd adborth cadarnhaol yn ymwneud â'r gostyngiad yng nghyfraddau Ddim yn Mynychu (DNA) yn dilyn rhyngweithio uniongyrchol dros y ffôn â chleifion cyn eu hapwyntiad fel rhan o lwybrau diogel COVID, a'r cymhwysedd ehangach o fewn rhaglenni sgrinio eraill.

Ar ran y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, cymeradwyodd JW SH a'r timau Sgrinio am eu hymdrechion trwy gydol y pandemig.

Aeth JW ymlaen i godi nifer o bwyntiau ar:
- hyder cyflenwi ynghylch gwario £1.1 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd SH, er bod rhai materion yn ymwneud ag amserlenni recriwtio, roedd disgwyl mawr i'r cyllid gael ei ddefnyddio erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion ynghylch cynnwys hyder cyflenwi mewn iteriadau adfer y rhaglen sgrinio yn y dyfodol;
- gwella llythrennedd y boblogaeth o ran ymddygiadau iechyd a hunan-sgrinio, gan dynnu sylw at y ffaith y byddai mwy o bobl yn cael eu sgrinio yn y dyfodol yn gofyn am gyllid cysylltiedig parhaus;
- lliniaru risgiau i enw da. Dywedodd SH fod ymgysylltu uniongyrchol a negeseuon clir ynghylch cyfyngiadau'r gwasanaethau presennol wedi helpu i reoli disgwyliadau'r cyhoedd;
- angen naratif ag arlliw o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r lefelau gwasanaeth presennol a amlinellir yn yr adroddiad, ac ymdeimlad o debygolrwydd yn ogystal ag effaith mewn adroddiadau yn y dyfodol;
- ymgysylltu sydd ei angen i fynd i'r afael â materion y system gyfan ar draws y rhaglenni. Dywedodd MK, er bod ganddo oruchwyliaeth o'r holl raglenni sgrinio, ei fod wedi ceisio dylanwadu ar y system ar lefel strategol a gweithredol o fewn y meysydd lle y mae'r risg fwyaf, ac er ei fod yn nodi manteision poblogaeth fwy llythrennog o ran iechyd o fewn gwasanaethau sgrinio, yr oedd angen deall yr effaith ar lwybrau cyfan cyn ymgymryd â mentrau newydd.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r ddau ddatblygiad allweddol o fewn y rhaglenni Sgrinio, optimeiddio Sgrinio Coluddion ac offer sgrinio newydd Bron Brawf Cymru.

Diolchodd y Pwyllgor i SH am y diweddariad cynhwysfawr ar gynlluniau adfer y rhaglen sgrinio, buddsoddiad ychwanegol ac arloesedd arfaethedig.

UNCONFIRMED

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod y gwaith o adfer y rhaglenni sgrinio yn mynd rhagddo a bod datblygiad o'r rhaglenni yn parhau yn ôl yr angen.

*Gadawodd SH y cyfarfod*

| | |
|---|---|
| **QSIC 65/2021** | **Gweithio i Wella (Chwarter 2, gan gynnwys Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol)** |

*Ymunodd SS â'r cyfarfod.*

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Gweithio i Wella: Chwarter 2, 2021-22 (Cyf 4.1.QSIC.101121).

Rhoddodd SS grynodeb o'r adroddiad, a thynnodd sylw at y bwriad i wella cynnwys ac arddull yr adroddiad PTR wrth symud ymlaen, gyda phwyslais ar dueddiadau a dadansoddi themâu yr oedd cydweithwyr Gwella Ansawdd yn gweithio arno.

Wrth ystyried yr adroddiad, holodd y Pwyllgor ynghylch nifer y pryderon a dderbyniwyd mewn perthynas ag ochr pobl y gwasanaeth. Dywedodd SS fod hyn yn debygol o ganlyniad i lwythi gwaith a newidiadau COVID yn effeithio ar brofiad y defnyddiwr gwasanaeth. Cadarnhaodd SS, er bod cyfarwyddiaethau yn mynd i'r afael â phryderon gyda'r bobl berthnasol, y byddai'r tîm Gweithio i Wella yn monitro tueddiadau ac yn cefnogi Cyfarwyddiaethau yn ôl yr angen.

Ailadroddodd y Pwyllgor y cytundeb i dreialu'r defnydd o'r Dangosfwrdd Sicrhau Perfformiad ar gyfer chwarter nesaf Gweithio i Wella.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli Gweithio i Wella yn effeithiol.

| | |
|---|---|
| **QSIC 66/2021** | **Risgiau Strategol a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol** |

Derbyniodd y Pwyllgor Gofrestr Risgiau Strategol a Risg Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Cyf 4.3.QSIC.101121).

Nododd y Pwyllgor y tair risg gorfforaethol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor a'r wybodaeth ddiweddaraf amdanynt. Dywedodd RBW fod y Bwrdd wedi cytuno i ddad-ddwysáuRisg Strategol Dau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, a oedd yn adlewyrchu'r newid yng nghyd-destun yr ymateb a'r ailgychwyn.

Mynegodd KE anesmwythyd ynghylch isgyfeirio Risg Strategol Dau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, ond roedd hi'n falch o nodi bwriad asesu risg pellach yn erbyn natur y risg, er mwyn sicrhau goruchwyliaeth briodol.

UNCONFIRMED

Nododd y Pwyllgor y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y byddai'r risgiau sy'n gysylltiedig ag arloesi a gwella yn cael eu rheoli, ac y gallai'r adolygiad o'r Strategaeth Hirdymor nodi risgiau eraill.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch effeithiolrwydd rheoli risg sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor.

| **QSIC 67/2021** | **Diweddariad Cynllunio ar gyfer y Gaeaf (Diogelu Iechyd a Microbioleg)** |
|---|---|

Cafodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am Gynllunio ar gyfer y Gaeaf o fewn gwasanaethau Diogelu Iechyd a microbioleg (cyf 4.9.QSIC.101121).

Rhoddodd MK yr wybodaeth ddiweddaraf am gynllunio, paratoi a chynnydd yn y Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Microbioleg ar gyfer Gaeaf 2021/22. Aeth ymlaen i roi manylion yr ystod o gymorth a roddwyd i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid wrth ddatblygu dull arfaethedig ar gyfer y gaeaf. Amlygodd MK y dull gweithredu ar draws y sefydliad mewn ymateb i fygythiadau diogelu iechyd posibl yn ystod y gaeaf; cymorth i gadw golwg ar salwch anadlol; adrodd ar feirws y ffliw; canolbwyntio ar y nifer sy'n cael eu brechu a gweithio i gynyddu gwyliadwriaeth i amrywiolion newydd posibl o COVID-19 mewn ffordd amserol.

Wrth ystyried yr adroddiad, holodd y Pwyllgor ynghylch rôl y sefydliad wrth gynorthwyo dealltwriaeth y cyhoedd o symud o bandemig COVID-19 i statws endemig. Gwnaeth MK sylw ar y bwriad i adeiladu ar lefelau llythrennedd iechyd ym mhoblogaeth Cymru a helpodd y defnydd o ddulliau atal COVID nad ydynt yn fferyllol i liniaru heintiau eraill, gan nodi sut y gallai gwaddol pandemig COVID helpu i ymgorffori arferion da yn gyffredinol o ran golchi dwylo, cadw pellter cymdeithasol, a phwysigrwydd hunan-ynysu gyda symptomau'r ffliw ac ati.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y gwelliannau parhaus o ran y model gweithredu diogelu iechyd a ffocws y Grŵp Canllawiau i sefydlu canllawiau ar gyfer gwahanol sectorau a lleoliadau gan gynnwys cartrefi gofal a charchardai, wrth i'r sefydliad symud i gamau nesaf y cynllun ymateb.

Diolchodd y Pwyllgor i MK am y diweddariad cynhwysfawr a chafodd **sicrwydd** ar gynllunio'r gaeaf o fewn y gwasanaethau Diogelu Iechyd a microbioleg ar gyfer 2021-22.

| **QSIC 68/2021** | **Adroddiad Iechyd a Diogelwch** |
|---|---|

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer Chwarter 2, 2021-22 (Cyf 4.5.QSIC.101121).

Rhoddodd CO drosolwg o'r adroddiad Iechyd a Diogelwch, gan nodi'r ffocws ar well cydymffurfiaeth mewn perthynas ag asesu risg tân a rheoli dŵr; a mesurau diogelwch ychwanegol yn y gweithle yng ngoleuni COVID.

UNCONFIRMED

Dywedodd CO, er na adroddwyd am unrhyw RIDDORs yn chwarter 2, adroddwyd am ddau ym mis Hydref 2021. Darparodd CO grynodeb ar lafar o'r rhain, a oedd yn canolbwyntio ar aelod o staff yn absennol o'r gwaith am dros saith diwrnod o ganlyniad i ddigwyddiad yn y labordai, a hefyd achos tebygol o drosglwyddo COVID yn y gweithle mewn Sgrinio Llygaid Diabetig (nid oedd y staff yr effeithiwyd arnynt yn ymwneud â gwasanaethau felly nid oedd unrhyw risg i ddefnyddwyr gwasanaeth yn y cyd-destun hwn). Ymchwiliwyd i'r RIDDORs hyn yn y drefn honno a rhoddwyd camau lliniaru ar waith lle bo angen.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod mesurau priodol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth ac i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd i'w gwella.

| **QSIC 69/2021** | **Diweddariad Safonau Iechyd a Gofal** |
|---|---|

Cafodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am Broses Hunanasesu Safonau Iechyd a Gofal 2021-22 (Cyf 4.6.QSIC.101121).

Amlinellodd ELB y dull gweithredu arfaethedig ar gyfer hunanasesiad Safonau Iechyd a Gofal ar gyfer 2021-22, gan symud ymlaen gyda'r Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu.

Ymholodd y Pwyllgor ynghlych y newid o'r flwyddyn flaenorol lle cynhaliwyd yr asesiad Safonau Iechyd a Gofal yn erbyn y cynllun gweithredol oherwydd gweithio matrics, gan nodi y byddai'r asesiad eleni'n cael ei wneud ar lefel cyfarwyddiaeth ac y câi ei arwain gan gymheiriaid er mwyn galluogi dysgu a rennir, craffu a herio, er mwyn gyrru gwelliant.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y dull o adolygu'r Cynllun Safonau Iechyd a Gofal ar gyfer 2021-22, gan nodi y bydd canlyniad yr hunanasesiad yn cael ei adrodd yn y Pwyllgor yn chwarter cyntaf 2022-23.

| **QSIC 70/2021** | **Diweddariad Polisi ddwywaith y flwyddyn** |
|---|---|

Derbyniodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y Polisi ddwywaith y flwyddyn (cyf 4.7.QSIC.101121).

Ystyriodd y Pwyllgor statws presennol polisïau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, a'r diweddariadau a ddarparwyd mewn perthynas â'r adolygiad o bolisïau sydd wedi dyddio.

Nododd y Pwyllgor y bwriad i symud ymlaen a chyflwyno’r gyfres o bolisïau a gweithdrefnau Diogelu i’w cymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor, a bod trafodaeth ar y gweill ar alinio'r 'Gweithdrefn codi honiadau o gam-drin gan staff' â'r gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn hytrach na'r gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol gan ei bod yn rhan o'r gyfres o bolisïau/gweithdrefnau diogelu.

UNCONFIRMED

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y cyfnod hir wedi dyddio ar gyfer y polisi Rheoli Meddyginiaethau a'r Cod Ymarfer, nododd y diweddariad a ddarparwyd ar gyfer y polisi hwn, a gofynnodd am amserlen o ran pryd y byddai'n barod i'w gymeradwyo. Cydnabu MK ei bod yn hen bryd gwneud hyn a nododd fod angen nodi arweinydd ar gyfer y maes gwaith hwn cyn y gellid cynhyrchu amserlen.
**Cam Gweithredu: MK**

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y blaenoriaethu a'r cynnydd sy'n cael ei wneud i adolygu polisïau, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill ar Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

| **QSIC 71/2021** | **Diweddariad Brechiad Ffliw Staff** |
|---|---|

Derbyniodd y Pwyllgor y Diweddariad Brechu Ffliw Staff (Cyf 4.8.QSIC.101121).

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ar gyflawni ymgyrch ffliw fewnol 2021/22, y risgiau a nodwyd a'r gwaith gyda'r adran gyfathrebu i hybu'r ymgyrch frechu.

Cafdodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y trefniadau a oedd ar waith i gyflawni ymgyrch ffliw y staff.

**Eitemau i'w Cymeradwyo**

| **QSIC 72/2021** | **Cofnodion, Cofnodion Gweithredu a Materion sy'n Codi o'r cyfarfod** |
|---|---|

Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod y Pwyllgor ar 19 Awst 2021 a'r Cofnodion Gweithredu (Cyf 5.1.QSIC.101121).

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:
- **Cymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Awst 2021 fel cofnodion gwir a chywir o'r cyfarfod.
- **Cymeradwyo** cau'r ddwy weithred ar y log gweithredu.
- **Nodi'r** diweddariad cynnydd yn erbyn un cam gweithredu agored;
- **Nodi** dim materion i'w codi.

**Diweddariad System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru** (Mewn ymateb i'r cofnod gweithredu, cyf 53/2021).

Rhoddodd SS ddiweddariad ar lafar, gan nodi derbyn y system ar 29 Hydref. Roedd y profion ar y gweill a byddai'r cynllun gweithredu yn cael ei gwblhau yn fuan. **Cafodd** y Pwyllgor **sicrwydd** y byddai mynediad i'r system datix bresennol yn cael ei gadw wrth weithredu'r system newydd.

| **QSIC 73/2021** | **Polisïau i'w cymeradwyo** |
|---|---|

Derbyniodd y Pwyllgor y polisi a'r weithdrefn ddiwygiedig ar Reoli Achosion (Cyf 5.2.QSIC.101121).

UNCONFIRMED

Nododd y Pwyllgor fod y ddogfen ddiwygiedig wedi'i chymeradwyo ar sail dros dro ym mis Ebrill 2021, a'i bod wedi'i chyhoeddi ers hynny ar gyfer ymgynghori â staff, a thynnwyd sylw at fân newidiadau.

Penderfynodd y Pwyllgor **gymeradwyo'r** Polisi a'r Weithdrefn Rheoli Digwyddiadau Achosion diwygiedig i'w gweithredu ar unwaith.

| | |
|---|---|
| **Eitemau i'w Nodi** | |
| **QSIC 74/2021** | **Adroddiad Rhybuddion** |
| **Nododd** y Pwyllgor yr Adroddiad Rhybuddion ar gyfer Chwarter 2, 2021-22 (Cyf 6.1.QSIC.101121) a chafodd **sicrwydd** ynghylch rheoli rhybuddion a dderbyniwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. | |
| **QSIC 75/2021** | **Diweddariad ar Barodrwydd y Ddeddf Ansawdd** |
| **Nododd** y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am Barodrwydd y Ddeddf Ansawdd (cyf 6.2.QSIC.101121) a chafodd **sicrwydd** ynghylch y dull o weithredu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. | |
| **QSIC 76/2021** | **Gweinyddiaeth i Gloi** |
| **QSIC 76.1/2021** | **Unrhyw Fater Arall** |
| Diolchodd y Pwyllgor a ffarweliodd ag Eleri Lloyd Burns, a oedd yn mynd i adael y sefydliad ddiwedd Tachwedd 2021. | |
| **QSIC 76.2/2021** | **Adborth y Pwyllgor** |
| Cytunwyd y byddai adborth o gyfarfod y Pwyllgor yn cael ei geisio trwy e-bost yn dilyn y cyfarfod. | |
| **QSIC 76.3/2021** | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** |
| Dydd Mercher 15 Chwefror 2022 | |
| *Daeth y sesiwn agored i ben am 12:30* | |

UNCONFIRMED